## STRATEGAETH FUDDSODDI FLYNYDDOL AR GYFER CYNGOR CYMUNED LLANDYFAELOG

Paratoir y Strategaeth Fuddsoddi Flynyddol hon yn unol â'r canllawiau statudol ar Fuddsoddiadau Llywodraeth Leol a gyhoeddir gan Llywodraeth Cymru.

Caiff yr holl fantolenni banc, asedau ariannol, benthyciadau a threfniadau arian a chredyd eu diffinio fel rhan o weithgareddau rheoli cyllid y Cyngor. Bydd y Strategaeth Fuddsoddi Flynyddol hon yn canolbwyntio ar adnoddau gwarged dros dro y Cyngor (neu asedau ariannol eraill y mae'n meddu arnynt) a'r achosion lle y mae'n buddsoddi'r adnoddau hyn.

Ceisia'r Cyngor sicrhau y rhoddir blaenoriaeth i ddiogelwch a hylifedd ei holl fuddsoddiadau yn hytrach na'u maint. Wrth ddrafftio'r Strategaeth Fuddsoddi Flynyddol hon, mae'r Cyngor wedi gwneud trefniadau priodol ar gyfer:

- Nodi, trin a rheoli risgiau yn y gweithgareddau rheoli buddsoddiadau/cyllid y mae'n ymgymryd â hwy,
- Trefniadau cyllidebu, cyfrifo ac archwilio,
- Ei ofynion rheoli arian a llif arian,
- Gwahanu cyfrifoldebau, trefniadau sefydliadol, dogfennau digonol a phennu swyddog sy'n gyfrifol am weithgareddau rheoli buddsoddiadau/cyllid,
- Rheolaeth corfforaethol,
- Ymgais i'w gynnwys mewn gweithrediad sy'n cynnwys gwyngalchu arian.

Caiff holl Fuddsoddiadau'r Cyngor eu gwneud a'u had-dalu mewn Sterling.

**<u>Symiau i'w buddsoddi</u>**

Bydd y Cyngor yn buddsoddi y symiau mewn llaw ac unrhyw symiau gwarged dros dro wrth Precept 2023-24. Buddsoddi'r y symiau hyn nes fydd y Cyngor yn penderfynu yn wahanol.

**<u>Rhestr o Fuddsoddiadau a wnaed</u>**

Bydd y Cyngor yn ymgymryd â'r categoriau canlynol o fuddsoddiadau ar gyfer y flwyddyn ariannol 2023-24.

- Cedwir £1,000 drwy'r amser mewn Cyfrif Cymunedol yn Banc Barclays PLC, Caerfyrddin.
- Cedwir pob cronfa eraill nes penderfynir y Cyngor yn wahanol mewn Cyfrif Busnes Cadw wrth gefn yn Banc Barclays PLC, Caerfyrddin
- Cedwir balans am Bwmp Llandyfaelog a Defibrilwyr Gymunedol mewn Cyfrif Thaliad Busnes yn Banc Barclays PLC, Caerfyrddin.

**<u>Buddsoddiadau Newydd – Nodi Gofynion</u>**

Os caiff unrhyw offer buddsoddi newydd (ar wahan i'r rhai a gymeradwywyd yn y rhestr uchod) eu cynnig yn ystod blwyddyn ariannol 2023-24 cyn i fuddsoddiad o'r fath gael ei wneud yn gyntaf, bydd yn rhaid iddo gael ei gymeradwyo gan Gyngor Cymuned Llandyfaelog.

**<u>Geirfa</u>**

Trefniadau credyd – maer hyn yn cwmpasu pob math o fenthyciadau neu drafodion credyd y gallai'r Cyngor ymgymryd â hwy.